

Adroddiad Briffio Polisi:

Cryfhau cyfraniad addysgu i adfywiad y Gymraeg

**Cyfes Seminar y Gymraeg a Pholisi Cyhoeddus
wedi'i threfnu gan
Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru
Prifysgol Aberystwyth, Gwanwyn 2014**



Cyd-destun y gyfres seminar

Trefnwyd cyfres o dair seminar yng ngwanwyn 2014 yn sgil yr amryw o gyhoeddiadau arwyddocaol o ganol 2013 ymlaen i annog trafodaeth fanwl o'r adroddiadau a'r cynigion polisi diweddar yn ymdrin â'r Gymraeg. Ystyriwyd hi'n amserol i gynnal cyfres seminar yn dwyn ynghyd lunwyr polisi, academyddion a chynrychiolwyr o gymdeithas sifil dan amodau 'Chatham House'. Y gobaith oedd y byddai'r gyfres yn darparu cyfle i gloriannu datblygiadau polisi cyfredol ac fel cam cyntaf yn y broses o sefydlu rhwydwaith a fyddai'n cynnull yn rheolaidd gynrychiolwyr o'r sectorau uchod i drafod datblygiadau pwysig ym maes polisi a chynllunio iaith, boed hynny'n fentrau polisi llywodraethol, yn waith ymchwil academaidd neu'n ddatblygiad perthnasol arall.

Diolchwn i Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru am eu cymorth ariannol i hwyluso'r gyfres seminar ac i Gwenan Creunant am ei chefnogaeth drefniadaethol. Mawr ddiolch i'r cyfrannwyr, yn gyflwynwyr ac yn fynychwyr, am eu parodrwydd i fod yn rhan o ymdrech i annog trafodaeth fanwl a threiddgar am y datblygiadau polisi hyn ym maes y Gymraeg.

Cyflwyniad

Trafodwyd dau adroddiad mewn perthynas ag addysgu'r Gymraeg yn y seminar hwn. Y cyntaf oedd '*Codi Golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion*' sef ffrwyth gwaith y Grŵp Adolygu Cymraeg i Oedolion a ffurfiwyd yn haf 2012 ac a adroddodd ym mis Gorffennaf 2013.¹ Bwriad y grŵp oedd adolygu'r maes hwn 'yn nhermau cyrhaeddiad dysgwyr, cynnwys cwricwlaidd, strwythurau darparu a gwerth am arian.'² Cyflwynwyd yr adroddiad a'i argymhellion yn y seminar gan Dr Haydn Edwards a fu'n Gadeirydd y Grŵp Adolygu a rhoddwyd ymateb ffurfiol gan Dr Heini Gruffudd cyn agor i drafodaeth ehangach.

Yr ail adroddiad a drafodwyd oedd '*Un iaith i bawb: adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4*' yn sgil gwaith y Grŵp Adolygu Cymraeg Ail iaith a ffurfiwyd hefyd yn haf 2012 ac a adroddodd ym mis Medi 2013.³ Amcan y grŵp hwn oedd ystyried 'pa newidiadau y dylid eu gwneud i addysgu ac asesu'r pwnc i alluogi mwy o ddysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, yn y gymuned a chyda'u

¹ Gellir gweld yr adroddiad llawn yma: <http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/130712-review-welsh-for-adults-cy.pdf>; Gweler ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yma:

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/131202-written-response-to-welsh-for-adults-review-cy.pdf>

² O dudalen gyntaf yr adroddiad.

³ Gellir gweld yr adroddiad llawn yma: <http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/130926-review-of-welsh-second-lan-cy.pdf>



teuluoedd.⁴ Yn ychwanegol at fod yn un o nifer o adroddiadau diweddar ar y Gymraeg, mae ei argymhellion yn cael eu hystyried gyda rhai adroddiadau grwpiau gorchwyl a gorffen annibynnol eraill fel rhan o'r adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm cenedlaethol a threfniadau asesu a arweinir gan yr Athro Graham Donaldson fel rhan o'r ymrwymiad i ddatblygu Cwricwlwm i Gymru.⁵ Yn y seminar, cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Athro Sioned Davies, fu'n Gadeirydd y grŵp a rhoddwyd ymateb ffurfiol gan Meirion Prys Jones, NPLD. Cadeiriwyd y seminar gan Dr Huw Lewis.

Prif bwytiau'r drafodaeth o 'Codi Golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion'

Safbwyntiau cyffredinol ar yr adroddiad

Croesawyd yr adroddiad a'r prif argymhellion. Cyfeiriwyd at y modd y mae'r adroddiad yn adeiladu ar nifer o adroddiadau blaenorol ar Gymraeg i oedolion gan gydnabod bod y maes wedi proffesiynoli ers sefydlu'r strwythur o chwe chanolfan yn 2006 ac yn trafod yn ddeallus gryfderau a gwendidau'r trefniadau presennol. Roedd cryn gefnogaeth i gael cwricwlwm newydd (argymhellion 10 ac 11) a fyddai'n gallu cydnabod amgylchiadau gwahanol siaradwyr a'u dyhead i ddatblygu hyfedredd mewn meysydd gwahanol: e.e. yn gymdeithasol, yn y gweithle, gyda phlant.

Arweiniad corff canolog: 'Yr Endid Cenedlaethol'

Roedd cefnogaeth gref i'r syniad o gael corff canolog i ddarparu arweiniad, arbenigedd a rheoli'r maes. Ystyriwyd yr 'Endid Cenedlaethol' fel ffordd ymlaen. Trafodwyd gwahanol agweddau ar ddatblygiad y sefydliad hwn gan gynnwys ystyriaethau materion cyfreithiol cysylltiedig. Wrth drafod sut fyddai'r modd gorau o leoli'r corff i sicrhau bod y corff hwn yn cael dylanwad ar y Llywodraeth ond hefyd yn gallu gweithredu hyd braich, soniwyd am fodel Quebec lle bo pwynt cyswllt trwy adran y Prif Weinidog ond bod hyn yn sicrhau nad oes ymyrryd uniongyrchol.

Dysgu'r Gymraeg yn y gweithle

Cefnogwyd galwad yr adroddiad am fwy o bwyslais ar ddysgu'r Gymraeg yn y gweithle (Argymhelliad 6 ac i raddau 7) ond cydnabuwyd y modd roedd hyn yn rhoi costau uchel ar sefydliadau. Pwysleisiwyd y cyd-destun ehangach i'r Gymraeg yn y gweithle gan gynnwys rôl awdit swyddi yn arwain at hyfforddiant iaith er mwyn cryfhau presenoldeb siaradwyr Cymraeg ar draws ystod o sectorau gwaith. Nodwyd yr amrywiaeth a'r anghysondeb cyfredol ar draws ac oddi mewn i sectorau o ran

⁴ O dudalen gyntaf yr adroddiad.

⁵ Am wybodaeth am yr adolygiad ac am yr adroddiadau sy'n cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad, gweler: <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/curriculum-for-wales/?lang=cy>



sefyllfa'r Gymraeg. Credwyd bod lle am fwy o arweiniad o ran pennu anghenion ieithyddol swyddi, gan arwain at gynnydd yn y swyddi rheiny lle dylai'r Gymraeg fod yn hanfodol er mwyn cynyddu'r nifer o sefydliadau lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Byddai hynny'n galw am fwy o arweinyddiaeth a pholisi clir. Codwyd gweithredu argymhellion Comisiwn Williams ar y sector gyhoeddus fel un maes lle'r oedd angen ystyriaeth ddwys o'r mater hwn.

Dysgu o achosion eraill

Tra bo'r adroddiad ei hun yn trafod yr angen i edrych ar arfer da rhyngwladol ac yn cyfeirio at enghreifftiau ymarferol o'r trefniadau yng Ngwlad y Basg, ni chodwyd yr elfen hon yn yr argymhellion. Ystyriwyd ei bod hi'n bwysig holi pam bod arwyddion o lwyddiant mewn achosion eraill tra mewn gwirionedd ein bod yn methu yn y maes hwn yng Nghymru o ystyried allbwn a lefel y buddsoddiad yn y maes. I eraill, roedd hi'n anodd datblygu cymhariaethau gyda Gwlad y Basg oherwydd y gwrthgyferbyniad rhwng y ddau achos yn y cyd-destun buddsoddiad cyllidol. Awgrymwyd bod angen rhoi sylw i'r elfen hon o ymchwilio i a dysgu o arfer da rhyngwladol fel un o brif flaenoriaethau'r 'Endid Cenedlaethol'. Un elfen a godwyd yn y drafodaeth o gyd-destun Gwlad y Basg oedd rôl y sector breifat mewn cynnig darpariaeth gan holi a oedd hyn yn opsiwn y dylid ei ystyried yn bellach yn y cyd-destun Cymreig.

Heriau cyllidol

Pwysleisiwyd y modd mae'r hinsawdd bresennol o gwtogi cyllidol yn atal datblygiad y maes a chynyddu'r nifer o siaradwyr. I rai, gellid fod wedi gwneud cymariaethau clir rhwng lefel gwariant yng Nghymru a llefydd eraill fel Gwlad y Basg. I eraill, roedd gwendidau'r trefniadau presennol o ran y niferoedd sy'n dod yn siaradwyr Cymraeg rhugl yn golygu ei bod hi'n anodd gwneud achos cryf dros gynyddu'r lefel buddsoddiad heb fynd ati i ddiwygio.

Materion o bwys ehangach

Ymysg rhai o'r materion a godwyd a oedd yn effeithio'n uniongyrchol ar faes Cymraeg i oedolion oedd:

- diffyg data, ac yn y cyd-destun hwn y data ar ddeall anghenion gweithleoedd sector cyhoeddus a phreifat;
- pwysigrwydd y Safonau Iaith;
- y pwysigrwydd bod polisiau eraill y Llywodraeth yn cefnogi ymdrechion dysgu Cymraeg i Oedolion er mwyn cael llwyddiant yn y maes hwn;
- yr angen i adlewyrchu ar ddatblygiadau yn eu cyfanrwydd yn dilyn yr adroddiadau o ran sefyllfa'r Gymraeg;



- yn ychwanegol at yr 'Endid Cenedlaethol' awgrymwyd bod angen strwythurau cenedlaethol cryfach hefyd o ran y Gymraeg, ym materion addysg, o ran hybu a hyrwyddo'r iaith ac annog adfywiad cenedlaethol.

Prif bwyntiau'r drafodaeth o 'Un iaith i bawb: adolygiad o Gymraeg ail iaith'

Safbwyntiau cyffredinol ar yr adroddiad

Y farn oedd bod yr adroddiad yn un swmpus ac yn mynd i'r afael â'r maes yn drwyadl gan dynnu sylw at faterion allweddol. Roedd cefnogaeth i'r argymhellion, yn arbennig felly'r mater o ddatblygu canllawiau i ysgolion ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i wersi Cymraeg ar draws y cwricwlwm mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (Argymhelliad 16 yr adroddiad). Cydnabuwyd rôl arweinyddiaeth wleidyddol ar bob lefel ac yn arbennig felly o du'r Llywodraeth i weithredu cynlluniau o'r fath.

Yn sgil diffygion a materion problematig ynghlwm yn y trefniadau presennol a amlygwyd yn yr adroddiad, y gred oedd bod angen rhoi'r arfau polisi mewn lle i wneud y gorau ar gyfer y carfanau o ddisgyblion sy'n mynd drwy'r system Cyfnod Allweddol 3 a 4 yn dysgu Cymraeg fel ail iaith.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

Ar yr un pryd, mynegwyd pryderon am arafwch ymateb a diffyg gweithredu ar argymhellion yr adroddiad gan Lywodraeth Cymru a hynny yn sgil y ffaith bod yr adolygiad yn gysylltiedig â'r cylch o adolygu cwricwlwm ehangach. Yn yr un modd, mynegwyd pryderon nad oedd y Gymraeg wedi cael cydnabyddiaeth ddigonol mewn adroddiadau eraill cysylltiedig megis yr *Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru*, ac y byddai argymhellion *Polisi Llwybrau Dysgu 14-19* yn debyg o gael effaith negyddol ar ddysgu'r Gymraeg fel ail iaith. Er gwaethaf arbenigedd amlwg Graham Donaldson mewn adolygu cwricwlwm, nid oedd hi'n eglur fod ganddo'r ymwybyddiaeth a'r adnabyddiaeth o'r cyd-destun Cymreig ac ieithoedd lleiafrifol i gydnabod yr angen dirfawr i ddiwygio trefniadau dysgu Cymraeg fel ail iaith a'r adolygiadau a'r polisiau sy'n effeithio ar y maes hwn.

Gweledigaeth a chynllunio mwy hir dymor

Barn rhai oedd bod angen newid mwy radical i ddelio gyda phroblemau gwaelodol dysgu Cymraeg fel ail iaith. Ers dechrau datganoli, ni welwyd cynnydd o ran dysgu Cymraeg ail iaith ond yn hytrach ddirywiad y pwnc. O'r herwydd, nodwyd bod angen cynllunio mwy hir dymor, gan ystyried datblygu gweledigaeth a newidiadau dros gyfnod o 30 mlynedd yn y maes i greu shift. Er gwaethaf pwysigrwydd y cam o wneud addysgu'r Gymraeg yn rheidrwydd statudol yn 1990, awgrymwyd bod Cymru



bellach mewn sefyllfa anghyfforddus o debyg i'r Iwerddon o ran goblygiadau'r polisi i agwedd disgyblion tuag at yr iaith.

Shifft o'r statudol i wneud dysgu'r iaith yn ddewisol?

Trafodwyd bod lle i ystyried newidiadau megis diddymu'r angen i'r iaith fod yn orfodol hyd at 16 oed gan ddefnyddio'r cyllid ar gyfer yr oedran hwnnw i fuddsoddi mewn arbroti gyda dulliau mwy dwys (a mwy effeithiol) o ddysgu'r Gymraeg i oeddrannau ieuengach. Cafwyd cryn drafodaeth ar oblygiadau diddymu'r rheidrwydd statudol i'r iaith fod yn orfodol hyd at 16 oed a'i wneud yn bwnc dewisol. Tynnwyd sylw at risgiau posibl. Trwy dynnu'r awdurdod o'r gyfraith, ni fyddai cymaint o eglurder o ran pwy fyddai'n gwneud y penderfyniadau ar sefyllfa darpariaeth y Gymraeg mewn ysgolion. Gallai rhai cyrff llywodraethol a rhieni ddefnyddio hyn i leihau'r adnoddau a'r capasiti i ddysgu Cymraeg yn hytrach nag ail-fuddsoddi mewn elfennau eraill o'r ddarpariaeth, yn enwedig mewn amgylchiadau o ddiffyg cyllid mewn ysgolion. O'i wneud yn bwnc dewisol, un opsiwn fyddai sefydlu hawl i bob disgybl astudio Cymraeg at lefel cymhwyster TGAU neu Lefel-A ar draws Cymru.

Dysgu o achosion eraill

Trafodwyd sut roedd achosion eraill wedi bod yn llawer mwy llwyddiannus na Chymru o ran cryfhau'r niferoedd siaradwyr drwy'r system addysg, megis Gwlad y Basg a New Brunswick. Yng Ngwlad y Basg, ni wnaed yr iaith yn bwnc gorfodol ond cynnigwyd modelau gwahanol o lefelau dysgu iaith. Dros amser o ddeng mlynedd ar hugain, drwy farchnata'r data i rieni o ran llwyddiant uwch y disgyblion hynny oedd yn mewn ysgolion oedd yn astudio'r iaith yn fwy dwys, gwnaethpwyd yr achos dros yr addysg cyfrwng Basgeg.

Trafodwyd hefyd werth ymchwilio i fodelau Ewropeaidd lle hyrwyddir llythrenedd triphlyg yn llwyddiannus gydag iaith frodorol yn rhan o hyn. Gellid ystyried hyn fel modd gwleidyddol o ochrgamu problemau o ran amheuan am werth addysg Gymraeg drwy bwyslais ar amlieithrwydd. Pwysleisiwyd bod ardaloedd Ewropeaidd sy'n hybu llythrenedd triphlyg yn aml hefyd yn gwneud orau o ran addysg dechnolegol a galwedigaethol gan ategu'r potensial i ddysgu o'u harfer da. Fodd bynnag, eglurwyd fod hyn yn gallu creu heriau ymarferol yn y dosbarth drwy effeithio ar yr oriau cyswllt ar gyfer yr iaith leiafrifol (e.e. gwlad y Basg wrth iddynt gyflwyno'r Saesneg).

Yn gyd-destun ehangach i'r drafodaeth, codwyd dau bwynt.



Ewyllys Wleidyddol

Pwysleiswyd y modd mae ewyllys ac arweiniad gwleidyddol wedi bod mor ganolog i ddatblygu darpariaeth dysgu'r Gymraeg yng Nghymru. Cwestiynwyd os oedd impetws neu awydd ymysg y pleidiau gwleidyddol i wneud unrhyw beth i newid y sefyllfa gyfredol o ran dysgu Cymraeg ail iaith ac roedd barn yn rhanedig ar hyn. Er gwaethaf diffygion y gyfundrefn bresennol a'r safonau isel, awgrym rhai oedd bod y polisi presennol yn eithaf saff ac yn ateb dibenion gwleidyddol o ennyn cefnogaeth carfanau gwahanol. Yr awgrym oedd y byddai newidiadau yn cael eu hystyried yn amhoblogaidd gan unrhyw blaid a bod nerfusrwydd ymysg y pleidiau i gymryd camau radical, gan gynnwys ofnau y byddai'n creu rhaniadau neu'n arwain at gyhuddiadau o fod yn wrth-Gymraeg gan felly lesteirio trafodaeth synhwyrol am hyn. Pwysleiswyd yr angen am drafodaeth ar sut y gellid symud ymlaen yn strategol i greu cyd-destun lle gellid trafod newid y polisi. Awgrymwyd gwerth cael 'think tank' ar y Gymraeg i fwydo syniadau a chynigion polisi i'r llywodraeth ac i newid hinsawdd y drafodaeth wleidyddol.

Ymchwil ac Arfer Da

Tynnwyd sylw at ddiffyg ymchwil a dysgu o arfer da yng Nghymru. Pwysleiswyd bod llawer o atebion i'r problemau cyfredol i'w canfod o arfer da yng Nghymru ac y gellid dysgu o esiamplau o fodelau caffael iaith effeithiol o fewn maes dysgu'r iaith Gymraeg. Cyfeiriwyd yn benodol at y ffordd mae addysg drochi yng Nghymru'n esiampl i wledydd eraill yn y byd, a'r budd a welir mewn cyfnodau dysgu dwys yn y canolfannau hwyr-ddyfodiaid. Gellir ystyried y gwersi o lwyddiant yng Nghymru (ac achosion eraill) a'u perthnasu i faes dysgu Cymraeg ail iaith.

Nodwyd hefyd nad oedd llawer o ymchwil mewn perthynas ag iaith, megis gwaith ar gaffael iaith ym maes y Gymraeg yn cael ei gynnal mewn adrannau addysg ac adrannau Cymraeg yng Nghymru. Y duedd yn hanesyddol fu dibynnu ar unigolion gweithgar a bod diffyg o ran prifysgolion Cymru yn trefnu ymdrechion ymchwil yn y maes hwn ac mewn meysydd perthynol o ran cymdeithaseg a chynllunio iaith. Roedd angen cryfhau'r seiliau ymchwil i yrru newidiadau polisi a galluogi bod yn fwy gwyddonol drwy weithredu ar sail ymchwil.



Seminarau'r Gymraeg a Pholisi Cyhoeddus
Trefnwyd gan Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru, Prifysgol Aberystwyth
Gwanwyn 2014

Seminar 1

Teitl: Cymunedau Cymraeg a Goblygiadau Comisiwn Williams ar Wasanaethau Cyhoeddus i'r Iaith Gymraeg
Lleoliad: Canolfan Ddelweddu, Prifysgol Aberystwyth
Dyddiad: Dydd Gwener 14 Chwefror 2014

Rhaglen:

Rhan 1: Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith

- Cyflwyniad: Dr Rhodri Llwyd Morgan
- Ymateb ffurfiol: Gareth Ioan
- Trafodaeth

Rhan 2: Comisiwn Williams ar wasanaethau cyhoeddus: ei oblygiadau i'r iaith Gymraeg

- Cyflwyniad: Nerys Evans
- Ymateb ffurfiol: Dyfed Edwards (Llefarydd CLILC ar y Gymraeg)
- Trafodaeth

Seminar 2

Teitl: Cryfhau cyfraniad addysgu i adfywiad y Gymraeg
Lleoliad: Y Deml Heddwch, Parch Cathays, Caerdydd
Dyddiad: Dydd Llun 17 Mawrth 2014

Rhaglen:

Rhan 1: Un iaith i Bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith

- Cyflwyniad: Yr Athro Sioned Davies
- Ymateb ffurfiol: Meirion Prys Jones
- Trafodaeth

Rhan 2: Codi Golygon: Adolygiad o Gymraeg i Oedolion

- Cyflwyniad: Dr Haydn Edwards
- Ymateb ffurfiol: Heini Gruffudd
- Trafodaeth



Seminar 3

Teitl: Y Gymraeg fel Grym Cymunedol ac Economaidd
Lleoliad: Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Prifysgol Aberystwyth
Dyddiad: Dydd Mawrth 20 Mai 2014

Rhaglen:

Rhan 1: Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

- Cyflwyniad: Dr Rhodri Llwyd Morgan, Prifysgol Aberystwyth
- Ymateb ffurfiol: Llŷr Roberts, Coleg Gymraeg Cenedlaethol
- Trafodaeth

Rhan 2: Potensial y Gymraeg i gyfrannu at wireddu amcanion Rhaglenni Ariannu Ewropeaidd 2014–2020

- Cyflwyniad: Wynfford James, Comisiynydd y Gymraeg
- Ymateb ffurfiol: Nerys Fuller-Love
- Trafodaeth

Rhan 3: Adolygiad o Waith y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Awe

- Cyflwyniad: Cefin Campbell, Sbectrwm
- Ymateb ffurfiol: Dr John Glyn
- Trafodaeth

